OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 371 (Cy.35)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *22 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Y personau a'r ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal, neu i fod yn un o'r personau a benodir felly sydd i gynnal, ymchwiliad cymwys, o fewn yr ystyr sydd i'r term "qualifying inquiry" yn adran 303A(1) o'r Ddeddf, sydd i ddechrau ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(**1**) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 303A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 (p.49). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf 1990 i gael y diffiniad o "*prescribed*".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau perthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac y maent bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5), erthygl 4; *gweler* y cofnod am Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) yn Atodlen 3 i Orchymyn 2000.

## Y swm dyddiol safonol

**3.** Os bydd ymchwiliad cymwys yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005, £679 fydd y swm dyddiol safonol a ragnodir gan adran 303A(5) o'r Ddeddf.

## Dirymu ac arbed

**4.** Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002(**3**) wedi'u dirymu, ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad cymwys yr oedd y Rheoliadau hymny yn gymwys iddo ac a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2005 ac sy'n parhau wedi'r dyddiad hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
22 Chwefror 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) O.S. 2002/2801 (Cy.269).
(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr awdurdod i adfer y costau a dalwyd ganddo mewn cysylltiad ag ymchwiliadau neu wrandawiadau eraill sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu unedol, cynlluniau lleol neu barthau cynllunio syml sydd ag effaith yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi swm dyddiol safonol y caniateir ei godi am bob diwrnod y mae person a benodir i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad wrthi'n ei gynnal, neu sydd fel arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig ag ef.

O ran ymchwiliad neu wrandawiad arall sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005, £679 yw'r swm a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.

Mae hynny'n disodli'r swm o £618, a ragnodwyd ar gyfer y flwyddyn 2004/2005 gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/2801) (Cy.269), ac eithrio mewn perthynas ag ymchwiliad cymwys yr oedd y Rheoliadau hymny yn gymwys iddo ac a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2005 ac sy'n parhau wedi'r dyddiad hwnnw.